Rhif: **WG22439**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **22 Medi 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **15 Rhagfyr 2014**

# Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

**Trosolwg**

Yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori ar yr ymagwedd gywir ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru o ran isafswm lefelau cymwysterau, arweinyddiaeth graddedigion, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfa.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gynllun strategol 10 mlynedd arfaethedig ar gyfer y gweithlu hwn. Mae'r *Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru* hefyd yn ymateb i argymhellion ynglŷn â hyfforddiant a'r gweithlu o ddau adroddiad annibynnol: *Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (2014) (Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen), dan arweiniad yr Athro Iram Siraj ac *Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar* (Adolygiad Graham), dan arweiniad yr Athro Karen Graham.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **15 Rhagfyr 2014** fan hwyraf.

Mae hefyd croeso i randdeiliaid ddod i un digwyddiad ymgynghori a fydd yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau a gynhelir drwy gydol yr hydref. I gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau hyn, cysylltwch â thîm y Blynyddoedd Cynnar.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

*Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013); *Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (2014); *Adolygiad Annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar* (2014)

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014
WG22439

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## 1. Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Mae ein cynllun *Drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru* yn nodi sut rydym yn anelu at gefnogi unigolion sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am addysg neu ofal plant yn y blynyddoedd cynnar (plant 0 i 7 oed). Nod y cynllun yw mynd i'r afael ag anghenion datblygu'r gweithlu ym mhob math o ddarpariaeth cofrestredig y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y cynigion a gyflwynir yn y cynllun drafft ac yn gwahodd sylwadau ar ei effaith debygol a'u manteision.

Mae gennym weledigaeth hirdymor ac uchelgeisiol ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Ymhen 10 mlynedd rydym am gael gweithlu medrus sydd:

- yn uchel ei barch (gyrfa o ddewis)
- yn deall sut mae plant yn dysgu a datblygu
- yn strwythuro gweithgareddau ac amser i gefnogi pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn
- yn ddysgwyr rhagweithiol eu hunain
- yn ddwyieithog.

Os byddwn yn llwyddo yn y nodau hyn, rydym o'r farn y byddwn yn gwella canlyniadau i blant ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Byddwn hefyd yn codi statws gyrfaoedd yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i lefel sy'n adlewyrchu'r rôl hanfodol sydd gan yr ymarferwyr hyn wrth gefnogi datblygiad plant. Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau hyn yn cymryd amser ac am y rheswm hwn rydym yn nodi ein disgwyliadau yng nghyd-destun cynllun strategol hirdymor.

**Mae'r cynllun drafft yn amlinellu ein nodau ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac yn nodi sut rydym yn bwriadu cefnogi'r gwaith hwn.** Rydym am ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i ganfod barn ac adborth am ein cynigion arfaethedig.

## 2. Ble rydym ni arni nawr?

Rydym yn cydnabod bod llawer o gynnydd cadarnhaol wedi ei wneud eisoes i gynyddu gallu a sgiliau'r gweithlu ymhlith ymarferwyr maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, a bod awydd o fewn y sector i barhau â dysgu proffesiynol a datblygu arbenigedd.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwybod bod y rhai sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru yn meddu ar amrywiaeth o gymwysterau ar amrywiaeth o lefelau. Ein dymuniad yw cefnogi'r gweithlu i ddatblygu eu harfer yn barhaus. I rai unigolion, bydd y canolbwynt cychwynnol ar gyrraedd Lefel 3 mewn cymhwyster blynyddoedd cynnar perthnasol. Bydd eraill yn dymuno manteisio ar gyfleoedd eraill i gynyddu eu

gwybodaeth trwy gymwysterau lefel uwch neu arbenigo mewn maes ymarfer penodol. Rydym yn credu'n gryf mai gweithlu sy'n dysgu'n barhaus ac sy'n datblygu eu sgiliau fydd yn y sefyllfa orau i ddarparu lefel uchel o ofal ac addysg i'n plant ieuengaf.

## 3. Pam mae angen i ni ddatblygu'r gweithlu yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae?

Mae tystiolaeth yn dangos bod addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ganlyniadau plant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, mae ansawdd y ddarpariaeth hon yn ffactor allweddol, ac mae ansawdd isel gofal plant yn cyfrannu at effeithiau negyddol mewn plant ifanc.

Rydym o'r farn bod y gweithlu yn ganolog i wella ansawdd darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae plant yn tueddu i wneud cynnydd gwell mewn lleoliadau sydd o'r farn bod datblygiad addysgol a chymdeithasol yn ategu ei gilydd a'u bod yr un mor bwysig â'i gilydd, yn enwedig lle mae gan aelodau staff gymwysterau uwch, gan gynnwys athrawon hyfforddedig.

Mae ymchwil sy'n cefnogi'r angen i ddatblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae wedi'i nodi'n fanwl yn adran 'Cyflwyniad' y cynllun drafft.

## 4. Beth ydym ni'n ei gynnig?

Mae'r cynllun *Drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru* yn nodi cynigion sydd wedi'u gosod o dan dair thema.

- Arweinyddiaeth.
- Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel.
- Gwella sgiliau a safonau yn y gweithlu presennol.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- datblygu canolfannau dysgu'r blynyddoedd cynnar i gefnogi cydweithrediad a datblygu'r gweithlu
- llwybr cynnydd drwy'r sector hyd at Lefel 6
- gwelliant i'r wybodaeth cyn-ymuno a chyfnod ymsefydlu strwythuredig wrth ymuno â'r gweithlu
- newid y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i adlewyrchu Lefel 3 fel y safon ofynnol i ymarferwyr
- newid y gymhareb oedolion i blant a argymhellir ar gyfer dosbarthiadau derbyn ysgolion
- annog dull 'cam wrth gam' i uwchsgilio trwy gymwysterau a chofnod o ddysgu proffesiynol parhaus.

Cyfeiriwch at adrannau 1 i 3 yn y cynllun drafft i ddeall y cynigion hyn yn llawn.

## 5. Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

I gyflwyno ymateb i'r cynigion a'r argymhellion a nodir yn y cynllun *Drafft 10 mlynedd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae,* cwblhewch a dychwelwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Gellir gweld y cynllun drafft 10 mlynedd a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Dychwelwch y ffurflenni wedi'u cwblhau drwy neges e-bost at earlyyears@cymru.gsi.gov.uk neu drwy'r post i Tîm y Blynyddoedd Cynnar, Adran Addysg a Sgiliau ac Adran Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **15 Rhagfyr 2014**.